


# CYNGOR TREF PORTHMADOG



Tachwedd 2 2021

Annwyl Gyngorydd,

Gwysir chi i gyfarfod nesaf o'r Cyngor Tref am **18:30** yr hwyr, Nos Fawrth, Tachwedd 9 2021 yn Ystafell Glaslyn, Y Ganolfan, Porthmadog a thrwy gyfrwng Microsoft Teams. I dderbyn gwahoddiad ar gyfer mynediad, cysylltwch â'r Clerc ar [clerccyngtreport@gmail.com](mailto:clerccyngtreport@gmail.com)

## Cyfarfod Rheolaidd y Cyngor Tref Tachwedd 9 2021

### RHAGLEN

#### 18.30 – 19.00

**Anerchiad gan Mr Garem Jackson y Pennaeth Addysg a'r Cyngorydd Cemlyn Rees Williams yn dilyn mater gwreiddiol 82.7.21 cynnig y Cyng Bethan Rees Jones.**

#### 19.00 Cyfarfod Rheolaidd y Cyngor Tref

1. **Ymddiheuriadau.**
2. **Adroddiad y Cadeirydd.**
3. **Cadarnhau cywirdeb cofnodion :-**
  - **Cyfarfod Rheolaidd Pwyllgor Llawn Hydref 12 2021**
  - **Cyfarfod Arbennig Pwyllgor Llawn Hydref 19 2021**
4. **Cyfle i'r Cynghorwyr ddatgan diddordeb.**
5. **Materion i'w dwyn gerbron :-**
  - Cynnig Cyng Dr Simon Brooks :- dewis **cynrychiolydd** o'r Cyngor Tref ar Fwrdd Llywodraethol **Ysgol Borth y Gest**.
  - Cynnig Cyng Alwyn Gruffydd :- Ymateb fel corff i'r ddogfen Ymgynghoriad ar drethi lleol ar gyfer **ail gartrefi** a llety hunanarlwyo a ffurflen ymateb ar-lein erbyn Tachwedd 17 2021 ( wedi ebostio 25.8.21) ( Gohebiaeth 4 14.9.21) ( Copi o atebion drafft ynghlwm )
  - Cynnig Cyng Richard Williams :- **marchnad Heol y Parc** - cwestiynu gwerth y farchnad
  - Cynnig Cyng Richard Williams:- **Clwb Chwaraeon Madog** – Llythyru'r Clwb i holi beth ydi'r gweithgareddau sydd yn cael eu cynnal ar y safle .
  - Cynnig Cyng Dr Melfyn Edwards :- gyrru cais i Gyngor Gwynedd am fwy o **oleuadau** ar y lôn waelod o'r Clwb Hwyllo i gyfeiriad Borth y Gest.
  - Cynnig Cyng Alwydd Gruffydd :- gyrru cais i Gyngor Gwynedd i drwsio'r **fainc ar ben creigiau Tremadog**.
  - Cynnig Cyng Gwilym Jones :- cysylltu hefo Cyfarwyddwr Ystadau, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwalader i ofyn am ddiweddariad am sefyllfa **tir Llaethdy Moelwyn**.

- Cynnig Cyng Jason Humphreys :- mynegi pryder am ddatganiad gan Ymddiriedolwyr **Elusen Canolfan Cymdeithasol Porthmadog (h.y.. "Y Ganolfan")** mewn dogfen gyhoeddus parthed eu "Cyngor" sy'n golygu, i bob pwrpas, bod trigolion Porthmadog bellach wedi colli'r hawl i ddewis eu Swyddogion a rhan fwyaf o'r Ymddiriedolwyr . ( gweler tudalen 2 a 3 o Adroddiad Blynyddol 2020 Y Ganolfan – copi ymghlwm )
- Cynnig Cyng Jason Humphreys :- ysgrifennu'n ffurfiol at **Elusen Canolfan Cymdeithasol Porthmadog (h.y.. "Y Ganolfan")**, ynghyd â chopi at Brif Swyddog Cyfreithiol Cyngor Gwynedd (mewn perthynas â "Deed of Trust" a phrydles efo "Y Ganolfan"), i fynegi pryder a chanfod eglurhâd
- Cynnig Cyng Jason Humphreys :- ysgrifennu at **Elusen Canolfan Cymdeithasol Porthmadog (h.y.. "Y Ganolfan")** i fynegi pryder ac anafodlonrwydd am sylwadau sydd wedi cael eu gwneud am Y Cyngor Tref mewn dogfen gyhoeddus. ( gweler tudalen 2 a 3 o Adroddiad Blynyddol 2020 Y Ganolfan – copi ymghlwm )

**6. Materion i'w dwyn gerbron y Cadeirydd unai er gwybodaeth neu i'w rhoi ar y Rhaglen ar gyfer y cyfarfod nesaf. Dyddiad cau Rhaglen Rhagfyr 14 – Rhagfyr 4ydd 2021, ( Rheolau Sefydlog 8.1 “ o leiaf deg diwrnod cyn cyfarfod y Cyngor”.)**

**7. Gohebiaeth : Rhestr Aros am Ateb (copi ynghlwm).**

**8. Gohebiaeth :**

<b>1</b>	<b>Steffan Jones</b>	Ymateb i 123.2.21 Dropped kerb
<b>2</b>	<b>Steffan Jones</b>	Ymateb i 59.6.21 Problem Canglwm
<b>3</b>	<b>Dewi Wyn Owen</b>	Ymateb i 149.3.21 Llwybr Penmount a Llwybr Peniel
<b>4</b>	<b>Gareth Hughes – Uned Incwm Gwynedd</b>	Toiledau
<b>5</b>	<b>Bedwyr Lloyd Williams</b>	Adroddiad ar gyfarfod efo Cyng Aled Griffith ar 13.10.21 yn dilyn cynnig 99.9.21 Llochesi Tremadog
<b>6</b>	<b>Un Llais Cymru</b>	Model Brotocol Datrysiadau Lleol
<b>7</b>	<b>Steffan Jones</b>	Ymateb i 125.9.21 Cais am anfoneb am doiledau Borth y Gest yn unig
<b>8(a)</b>	<b>Garem Jackson</b>	Ebost am Y Cynllun Strategol Y Gymraeg mewn Addysg
<b>8(b)</b>		Cynllun Strategol Y Gymraeg mewn Addysg 32 tudalen ( Copi Electronig yn unig )
<b>9</b>	<b>Steffan Jones</b>	Ymateb i 137.10.21 Problem parcio Tremadog
<b>10</b>	<b>Julie James</b>	Ymateb i 116.9.21 Ail gartrefi – ( Cais i weithredu ar argymhellion )
<b>11</b>	<b>Craig ap Iago</b>	Ymateb i 50.11.20 ( Mynegi siom yn ei ymateb, holi lle mae'r cynllun arni )

**9. Materion Ariannol : Derbyniadau :**

HSBC	Llog Banc Hydref 2021	£ 00.28
HSBC	Trosglwyddiad wedi cau Cronfa'r Cadeirydd	£ 1,260.00

**Biliau i'w talu :**

1	Marian Roberts	LLinell Ffôn a Wê Hydref 2021	£	47.70
2	Marian Roberts	Cardiau – Siop Pikes	£	3.99
3	Marian Roberts	Costau Teithio Hydref 2021	£	4.90
4	Marian Roberts	Cyflog Clerc Hydref 2021	£	639.17
5	Cyllid a Thollau ei Mawrhydi	Treth incwm cyflog Clerc Hydref 2021	£	160.07
6	Y Ganolfan	Gwersi Cymraeg mis Hydref	£	90.00
7	Y Ganolfan	Cyfarfodydd mis Hydref	£	60.00
8	Ed Fray	Torri coed Bryn Coffa	£	432.00
9	Ashley Hughes	Offer swyddfa	£	39.19

( Mae copi o bob sicc ar gael i'w harchwilio ar gyfer awdit/rheolau ariannol)

**10. Ceisiadau Cynllunio****(a) Rhif Cais .: C21/1004/44/DT ( wedi ebostio 20.10.21 )**

Lleoliad : Cilgerran, 2, Rhes Garth Ffordd Garth, Porthmadog, Gwynedd, LL49 9BE

Bwriad : Estyniad deulawr cefn yn cynnwys addasu ystafelloedd storio llawr daear i greu ystafell wlyb ac adeiladu ystafell ymolchi llawr cyntaf ynghyd ag ardal 'decking' newydd.

Yn gywir,  
*Marian Roberts*

*Marian Roberts (Clerc/Clerk), 29 Maes Gerddi, Porthmadog, Gwynedd, LL49 9LE*

*Ffôn / Tel : 01766 513709*

*E-bost/ e-mail : [clerccyngtreport@gmail.com](mailto:clerccyngtreport@gmail.com)*

